

THOMAS, JOHN WILLIAM ('Arfonwyson'; 1805 - 1840), mathemategwr

Enw: John William Thomas
Ffugenw: Arfonwyson
Dyddiad geni: 1805
Dyddiad marw: 1840
Rhiant: William Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: mathemategwr
Maes gweithgaredd: Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awduron: Robert Thomas Jenkins, Llewelyn Gwyn Chambers

Ganwyd yn 1805 yn fab i William Thomas, llafurwr, Allt Isaf, Pentir. Cafodd deirblwydd (7-10 oed) o ysgol; bu wedyn yn hogyn chwarel, ond mynychai ysgol nos, ac amlygodd hoffter neilltuol o rifydddeg.

Yn 17, er mwyn cael rhagor o gyfle i ddarllen, aeth yn deithiwr dros lyfrwerthwr o Fiwmares; ond ymhen y flwyddyn aeth am dri mis i ysgol yr almanaciwr **Robert Roberts** (1776-1836), yng Nghaerdybi. Yna, agorodd ysgol yn Nhregarth, a dechreuodd ar ei lyfr *Elfenau Rhifyddiaeth*. Priododd yn 21 oed, a symudodd i Fangor; os yw'r hanes yn gywir, bwriadodd gyfnod drachefn yn gwerthu llyfrau ym Môn; ond sut bynnag, cafodd **J. H. Cotton** ysgol iddo yn Ffestiniog. Anghydwelodd â chlerigwr yno, collodd yr ysgol, a dychwelodd i Fangor i gadw ysgol; yno, ddiwedd 1830, y cyhoeddodd y rhifyn cyntaf o'i *Elfenau Rhifyddiaeth*, y byddai'n gywirach ei alw'n 'Elfennau Mathemateg' - nid mor elfennol chwaith; daeth yr ail rifyn yn 1831 a'r trydydd yn 1832; sonia'r awdur hefyd am gyhoeddi *Dwned (h.y. gramadeg) Cymraeg*, a *Geiriadur Cymraeg* 'gwyddonol a celfyddydol.' Cyhoeddodd *Ffordd anffaeledig i Gymro uniaith ddarllen Saesneg yn gywir* yn 1832, un o'r llyfrau cyfarwyddyd cynharaf. Bu am chwe mis, yn ystod 1832, yn olygydd y cyfnodolyn *Tywysog Cymru* a gyhoeddid yng Nghaernarfon. Yn 1833 dug allan *Geiriadur Cymreig a Seisonig*, llyfr a andwywyd gan ddilyn syniadau **W. O. Pughe** - amddiffynnodd 'Arfonwyson' y syniadau hyn yn frwd yn *Seren Gomer*, yn nes ymlaen.

Yn Awst 1834 aeth i Lundain i chwilio am waith; yno daeth yn aelod o'r Cymreigyddion, ac yr oedd yn 'fardd' swyddogol y Gymdeithas yn 1836 a 1837. Bu'n ysgrifennydd preifat i William Cobbett, ond pan fu farw hwnnw, bwriwyd ef drachefn i segurddod, a'r pryd hynny y cwplaodd *Trysorfa yr Athrawon*, 1837, at wasanaeth yr ysgolion Sul. Dangoswyd llythyr ganddo ar 'gomed Halley' i'r Seryddwr Brenhinol, G. B. Airey, a gwnaeth hwnnw le iddo yn Arsyllfa Greenwich; yno dygai allan almanaciau Cymraeg, a sgrifennodd lawer i *Seren Gomer* a chylchgronau eraill.

Ond yr oedd yng ngafael y dycau, a bu farw 12 Mawrth 1840; claddwyd yn Greenwich. Anaml y gwelwyd rhagorach enghraifft o oruchafiaeth ar anawsterau dybryd nag a welir yng ngyrfa 'Arfonwyson.'

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dr Llewelyn Gwyn Chambers

Ffynonellau

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889â€"96)

Seren Gomer, 1849 (chwech o ysgrifau gan 'Hugh Tegai') - y mae'r ddwy ffynhonnell yn amrywio ar fanion, a noder bod atgofion tad 'Arfonwyson,' a gynhwysir yn ysgrif gyntaf 'Hugh Tegai,' yn amlwg anghywir mewn manau

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad: sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia, yn nghyd a'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry* (Treffynnon 1893), 162, a ategir gan 'Gwyneddon' yn y *Y Geninen*, 1903, 216

Darllen Pellach

Y Gwyddonydd, 11 (1973), 128

Cofflein: **Bryn Twrw**

Erthygl Wicipedia: **John William Thomas**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q16737328**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government